Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG52328**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar gaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol: is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Rhagfyr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol: is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ac ymateb Llywodraeth Cymru.

## Camau Gweithredu Gofynnol

Er gwybodaeth yn unig y mae’r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau
Is-adran Caffael Masnachol
Tîm Deddfwriaeth Caffael
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: sociallyresponsiblepublicprocurementconsultation@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o’r ymatebion a’r copïau o holl ddogfennau’r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

# Cynnwys

Cyflwyniad a'r Broses Ymgynghori ........ 4
Yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru ........ 5
Y Camau Nesaf ........ 30

## Cyflwyniad a'r Broses Ymgynghori

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf SPPP") yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1 (awdurdodau contractio) gaffael yn gyhoeddus mewn ffordd sy'n sicrhau llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf SPPP yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi strategaethau caffael ac amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a chydymffurfio â dyletswyddau rheoli contractau wrth gaffael gwasanaethau adeiladu a chontractau allanol mawr, gan gynnwys proses hysbysu.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf SPPP yn cynnwys dyletswyddau tryloywder, sy'n canolbwyntio ar gyhoeddi adroddiad caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol, a chofrestr contractau.

Bwriad cyffredinol y Rheoliadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad oedd cyflwyno'r manylion angenrheidiol i roi Rhan 3 o Ddeddf SPPP ar waith.

Roedd yn ymwneud â meysydd o'r Ddeddf SPPP sy'n cyfeirio at ddisgrifiadau o gontractau ac adrodd. Roedd yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

1. Contractau rhagnodedig
2. Gwelliant i Adran 27(4) o'r Ddeddf SPPP
3. Contractau cofrestradwy
4. Gwybodaeth sy'n ofynnol mewn adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol
5. Y Gymraeg

Cafodd Llywodraeth Cymru 60 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd.

## Yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru

Rhannwyd yr ymgynghoriad yn gwestiynau gorfodol a chwestiynau dilynol a oedd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol lle roedd yr ymatebydd wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf â phob cwestiwn. Yn ogystal, roedd tri chwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg.

### 1. Contractau rhagnodedig (wedi'i gynnwys yn rheoliad 3 o'r Offeryn Statudol drafft)

C1a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y diffiniad o 'gontract rhagnodedig' yn y rheoliadau yn sicrhau bod y gofynion o dan adran 24 o'r Ddeddf yn cael eu gweithredu mewn ffordd gymesur?

C1b: Os gwnaethoch chi anghytuno neu anghytuno'n gryf â Chwestiwn 1a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 30 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 20 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Nid oedd 10 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 31 o sylwadau.

Datgelodd yr ymatebion i gwestiwn 1b bryderon ynglŷn â chymesuredd, eglurder, ac ymarferoldeb y Rheoliadau arfaethedig ar gyfer contractau rhagnodedig, ac ynghylch y gwahaniaeth mewn trothwyon rhwng y Ddeddf SSSP a Deddf Caffael 2023. Cadarnhaodd rhai hefyd y byddai'r diffiniad yn helpu i gyflawni nodau llesiant.

Amlygodd yr ymatebion y perygl o gael baich gweinyddol gormodol, a'r angen am ganllawiau cliriach a chysondeb â deddfwriaeth arall.

Cafwyd sawl sylw bod y trothwy yn y Ddeddf SSSP af gyfer contractau adeiladu mawr o dan gontractau rhagnodedig yn rhy isel.

Roedd pryderon bod angen gosod amcanion caffael ar gyfer pob contract rhagnodedig.

Roedd rhai ymatebion yn mynegi pryderon ynghylch a ddylai rhai contractau dyfarniad uniongyrchol (dewis defnyddwyr) a chontractau a gwmpesir gan Reoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 fod o fewn neu y tu allan i gwmpas y diffiniad o gontract rhagnodedig.

Roedd rhai ymatebion yn cadarnhau y byddai'r diffiniad yn helpu i gyflawni nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dywedodd eraill y dylai cwmpas contract rhagnodedig gael ei ehangu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd llawer o'r pryderon ynghylch cymesuredd a baich fel petaent yn ymwneud â'r rhagdybiaeth y byddai angen gosod amcanion caffael ar gyfer pob contract rhagnodedig. Nid yw hyn yn wir; mae angen gosod amcanion caffael ar lefel yr Awdurdod Contractio. Er bod hyn wedi'i nodi yn y Ddeddf SSSP, bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau Statudol ynghylch gosod Amcanion Caffael yn nodi hyn yn glir iawn.

Mynegwyd pryderon ynghylch trothwyon gwahanol rhwng y Ddeddf SSSP a Deddf Caffael 2023 mewn perthynas â chontract rhagnodedig. Rhoddir y diffiniad o gontract rhagnodedig yn y Ddeddf; fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at yr ystyr. Mae'r Rheoliadau yn ychwanegu at yr ystyr, ac er nad yw'r trothwyon a gynigir yn y Rheoliadau hyn yn cyd-fynd a throthwy'r Dangosydd Perfformiad Allweddol yn Neddf Caffael 2023, maent yn gyson â'r trothwyon a ddefnyddir i ddiffinio contract cyhoeddus yn Neddf Caffael 2023 (h.y. contractau rhagnodedig fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau hyn yw contractau uwchlaw'r trothwyon yn Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023 nad ydynt yn gontract esempt o fewn yr ystyr yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael 2023).

Dylid nodi hefyd fod Deddf SSSP 2023 wedi cael Cydsyniad Brenhinol cyn Deddf Caffael 2023. Er y gwnaed pob ymdrech i gysoni'r derminoleg rhwng y ddwy Ddeddf, cyflwynodd y llinellau amser gwahanol rai heriau o ran gweithio'n gyfochrog.

Mynegwyd pryderon bod y trothwy o £2,000,000 ar gyfer contractau adeiladu mawr yn rhy isel. Gosodir y trothwy yn y Ddeddf SSSP ac nid dyna bwnc yr ymgynghoriad hwn.

Cafwyd sylwadau ynghylch rhai contractau dyfarniad uniongyrchol (dewis defnyddwyr) a chontractau a gwmpesir gan Reoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025, o ran a oeddent o fewn neu y tu allan i'r cwmpas. Yng ngoleuni'r ymatebion hyn, bydd rhai newidiadau i'r Rheoliadau i eithrio hefyd o'r diffiniad o gontract rhagnodedig, gontractau sy'n destun datgymhwyso mewn Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 120A o Ddeddf Caffael 2023, fel nad yw Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract, a chontractau a ddyfernir o dan adran 41 o Ddeddf Caffael 2023 drwy gyfeirio at baragraff 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Caffael 2023. Mae'r contractau hyn hefyd wedi cael eu tynnu allan o'r cwmpas ar gyfer Rheoliadau drafft 4 a 5 (contractau adroddadwy a chofrestradwy). Fodd bynnag, dylid nodi bod y dyletswyddau ynghylch caffael a gosod amcanion cymdeithasol gyfrifol yn Adran 24 yn berthnasol i'r holl waith caffael a wneir gan y cyrff a restrir yn Atodlen 1 o hyd, gan gynnwys caffael sy'n gysylltiedig ag iechyd.

## 2. Diwygiad i Adran 27(2) o Ddeddf 2023 (wedi'i gynnwys yn rheoliad 6 y Rheoliadau drafft)

C2a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod diwygio'r tabl yn adran 27 o'r Ddeddf i ddisodli'r geiriau “pobl ag anableddau” gyda “phobl anabl” yn bodloni'r gofyniad i ddefnyddio iaith sy'n gyson â'r model cymdeithasol o anabledd?

C2b: Os gwnaethoch chi anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 2a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 37 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 3 ymatebydd yn anghytuno, nid oedd 12 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 8 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 24 o sylwadau.

Datgelodd yr ymatebion i gwestiwn 2b gefnogaeth eang i'r bwriad i gysoni iaith â'r model cymdeithasol o anabledd, ond amlygwyd hefyd yr angen i ystyried y cymalau a'r gofynion adrodd yn ofalus. Awgrymodd un ymatebydd nad yw'r gwelliant arfaethedig yn cyflawni bwriad y polisi yn llawn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Gan y bydd y Rheoliadau yn cysoni'r derminoleg ag iaith sy'n briodol ar gyfer y model cymdeithasol o anabledd, a bod cefnogaeth eang i'r newid, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

### 3. Contract cofrestradwy (wedi'i gynnwys yn rheoliad 4 y Rheoliadau drafft)

C3a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y diffiniad o “gontract cofrestradwy” yn hwyluso tryloywder i ddarpar gyflenwyr a rhanddeiliaid mewn ffordd gymesur ac felly'n bodloni bwriad y polisi?

C3b: Os gwnaethoch chi anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 3a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni’r bwriad polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 30 o blith y 60 o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd 18 o'r ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Nid oedd 4 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 8 wedi gadael yr ateb yn wag. Cafwyd 37 o sylwadau gan ymatebwyr a oedd wedi ateb yn negyddol ac yn gadarnhaol.

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 3b yn nodi, er bod cefnogaeth eang i dryloywder ym maes caffael cyhoeddus, fod perygl y byddai'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer contractau cofrestradwy yn creu dyblygu diangen, baich gweinyddol, a dryswch.

Roedd yr ymatebwyr yn galw'n gyson am fwy o gysondeb rhwng y derminoleg a Deddf Caffael 2023 a systemau cyfredol, canllawiau cliriach, torri'r cysylltiad rhwng contract cofrestradwy a chontract adroddadwy, ac agwedd fwy cymesur at adrodd.

Roedd rhai ymatebion yn mynegi pryderon ynghylch a ddylai rhai contractau dyfarniad uniongyrchol dewis defnyddwyr a chontractau a gwmpesir gan Reoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 fod o fewn neu y tu allan i gwmpas y diffiniad o gontract rhagnodedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd y Platfform Digidol Cymreig (GwerthwchiGymru) yn darparu'r swyddogaeth i gysylltu pob contract â'r swyddogaeth cofrestr contractau lle y cyhoeddir Hysbysiad Manylion Contract o dan Ddeddf Caffael 2023. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Contractio gael un defnyddiwr unwaith i droi'r swyddogaeth cofrestr contractau ymlaen o fewn GwerthwchiGymru. Wedi hynny, tynnir y data o'r Hysbysiadau Manylion Contract, gan felly fodloni gofyniad y gofrestr contractau o dan y Ddeddf SSSP a'r Rheoliadau. Gan fod cysylltiad digidol clir rhwng yr Hysbysiad Manylion Contract a'r swyddogaeth cofrestr contractau ar GwerthwchiGymru, a gan fod angen i gontractau cyfleustodau a chontractau consesiwn gael Hysbysiad Manylion Contract o dan Ddeddf Caffael 2023, caiff y Rheoliadau eu diwygio i ddod â'r mathau hyn o gontractau o dan gwmpas contract cofrestradwy er mwyn bod mor dryloyw â phosibl.

Rhoddir eglurder ynghylch defnyddio swyddogaeth GwerthwchiGymru yn y Canllawiau Statudol. Mae canllawiau ar y system gyfredol wedi bod ar gael ar GwerthwchiGymru ers peth amser.

Cafwyd sylwadau ynghylch contractau a gwmpesir gan Reoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 a chontractau dyfarniad uniongyrchol dewis defnyddwyr. Yng ngoleuni'r ymatebion hyn, bydd rhai newidiadau i'r Rheoliadau i eithrio hefyd o'r diffiniad o gontract cofrestredig, gontractau sy'n destun datgymhwyso mewn Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 120A o Ddeddf Caffael 2023, fel nad yw Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract, a chontractau a ddyfernir o dan adran 41 o Ddeddf Caffael 2023 sy'n bodloni gofynion paragraff 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Caffael 2023.

Bydd gwelliant hefyd i'r Rheoliadau fel na fydd ystyr contractau adroddadwy (adran 39) yn rheoliad 6 yn cael ei ddiffinio mwyach drwy gyfeirio at gontractau cofrestradwy (adran 40) yn rheoliad drafft 5. Bydd yr ystyr yn aros yr un fath i raddau helaeth, ond bydd yn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Rheoliadau drwy osgoi dryswch a'r angen i groesgyfeirio at ddiffiniad anghysylltiedig. Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn sicrhau nad yw contractau cyfleustodau o fewn cwmpas rheoliad drafft 5 "Gwybodaeth sy'n ofynnol mewn adroddiadau caffael blynyddol cymdeithasol gyfrifol" ond bydd contractau consesiwn o fewn cwmpas Rheoliadau 5 a 6 drafft (contractau cofrestradwy ac adroddadwy). Diben hyn yw sicrhau bod y data sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau yn ystyrlon ac yn briodol. Bydd yr eithriadau y soniwyd amdanynt uchod hefyd yn berthnasol i'r diffiniad o gontract adroddadwy.

Gan y bydd datrysiad digidol canolog ar gael i Awdurdodau Contractio, a fydd yn tynnu data perthnasol yn awtomatig o'r Hysbysiad Manylion Contract i'r Gofrestr Contractau ar GwerthwchiGymru yn dilyn mân ddiweddariad i gyfrif yr Awdurdodau Contractio ar GwerthwchiGymru, ni fydd unrhyw newidiadau ychwanegol yn cael eu

gwneud i'r Rheoliadau gan fod y baich ychwanegol ar Awdurdodau Contractio yn fach dros ben.

Dylid nodi hefyd fod Deddf SSSP 2023 wedi cael Cydsyniad Brenhinol cyn Deddf Caffael 2023. Er y gwnaed pob ymdrech i gysoni'r derminoleg rhwng y ddwy Ddeddf, cyflwynodd y llinellau amser gwahanol heriau o ran gweithio'n gyfochrog.

## Gwybodaeth sy'n Ofynnol mewn Adroddiadau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Blynyddol (wedi'i gynnwys yn rheoliad 5 y Rheoliadau drafft)

### Amod 1: Cyfleodd i staff ddefnyddio, dysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg

C4a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 1 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C4b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 4a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 23 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 23 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 6 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 8 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 34 o sylwadau gan yr ymatebwyr.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr i gwestiwn 4b, er bod cefnogaeth i'r egwyddor o gontractwyr yn rhoi cyfleoedd i staff ddefnyddio, dysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg, ystyriwyd mewn rhai achosion fod y gofynion adrodd arfaethedig yn anghymesur, yn feichus, yn anwiriadwy ac, o bosibl, yn aneffeithiol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am agwedd fwy hyblyg a chymesur, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â chanllawiau a chymorth cadarn i awdurdodau a chyflenwyr. Nododd llawer hefyd y dylid cofnodi'r data hyn ar system ganolog.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y gofyniad i gasglu ac adrodd ar gyfleoedd i staff ddefnyddio, dysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg yn gymesur ar gyfer pob contract, yn enwedig y rhai lle nad yw'r Gymraeg yn berthnasol i bwnc y contract, ac y gallai rhai cyflenwyr fod o dan anfantais neu gael eu cosbi oherwydd y gofynion adrodd.

Roedd pryder y byddai cyflenwyr yn hunangofnodi'r data a gasglwyd, heb unrhyw brosesau gwirio annibynnol, ac felly cwestiynwyd pa mor ddefnyddiol yw data o'r fath ar gyfer asesu cynnydd tuag at nodau llesiant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser.

Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 1. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran y Gymraeg.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi, a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno. Bydd hyn yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Yn ei dro, caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fe bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod er mwyn cyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

O ystyried y gefnogaeth weddol gyson i'r amod hwn, y camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

### Amod 2: Contractwyr yng Nghymru (wedi'u cynnwys yn rheoliad 5(2)(b) y Rheoliadau drafft)

C5a I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod amod 2 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C5b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno'n gryf â Chwestiwn 5a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 27 o blith y 60 o ymatebion yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd 24 o'r ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Nid oedd 3 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 6 wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 32 o sylwadau.

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 5b yn nodi, er bod cefnogaeth eang i'r gwaith o fesur effaith economaidd leol caffael cyhoeddus, fod llawer o'r farn bod y ddibyniaeth arfaethedig ar gyfeiriad swyddfa gofrestredig yn gamarweiniol o bosibl. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddull gweithredu mwy manwl, yn seiliedig ar dystiolaeth, a fyddai'n adlewyrchu manteision lleol yn fwy cywir, yn lleihau'r baich gweinyddol, ac yn cefnogi busnesau bach a chanolig i gymryd rhan.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dadlau bod defnyddio cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r cyflenwr yng Nghymru i fesur effaith economaidd leol yn gamarweiniol. Nodwyd bod llawer o gyflenwyr sydd â'u pencadlys y tu allan i Gymru yn cyflogi pobl leol ac yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru drwy ganghennau lleol, cadwyni cyflenwi, a chyflogaeth.

Roedd pryder na fyddai'r metrig arfaethedig yn adlewyrchu'n gywir effaith wirioneddol caffael cyhoeddus ar gymunedau lleol, yn enwedig mewn sectorau megis adeiladu neu ofal cymdeithasol, lle mae'r cadwyni cyflenwi a'r gyflogaeth yn aml yn lleol hyd yn oed os nad yw'r brif swyddfa.

Roedd pryder y gallai'r ffocws ar swyddfa gofrestredig achosi anfantais i gyflenwyr sydd wedi'u lleoli ychydig y tu allan i Gymru ond sy'n cyflogi staff o Gymru, ac y gallai ystumio'r adrodd ar gyfer awdurdodau ar y ffin.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser.

Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 2. Nid yw'r Rheoliadau yn gorfodi Awdurdodau Contractio i fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd llawer o gyflenwyr yn bodloni'r amod hwn.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran contractio â chyflenwyr o Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr ac yn cytuno y bydd amod 2 yn rhoi darlun rhannol yn unig, h.y. gwerth canrannol contractau â chyflenwyr sydd â chyfeiriad post / sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Er nad yw hyn yn rhoi darlun llawn, mae'n darparu data ystyrlon. Ar ôl ystyried dulliau gweithredu eraill, ni nodwyd ateb ymarferol a fyddai'n darparu mesur cyson ar gyfer mathau gwahanol o Awdurdodau Contractio, lle mae rhai, er enghraifft, wedi'u lleoli o

fewn ardal un awdurdod lleol ac eraill yn gweithredu ledled ardal ddaearyddol ehangach.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod er mwyn cyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi, a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno. Bydd hyn yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

Felly, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

### Amod 3: Contractwyr bach a chanolig (wedi'u cynnwys yn rheoliad 5(2)(c) y Rheoliadau drafft)

C6a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod amod 3 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C6b Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno'n gryf â Chwestiwn 6a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 35 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 15 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 4 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 6 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 31 o sylwadau gan yr ymatebwyr.

Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 6b, er bod cefnogaeth gref i gynyddu cyfranogiad busnesau bach a chanolig mewn caffael cyhoeddus, fod llawer o'r farn bod y gofynion adrodd arfaethedig yn feichus, yn aneffeithiol o bosibl, ac nad oeddent yn adlewyrchu cyfraniadau busnesau bach a chanolig yn llawn. Galwodd yr ymatebwyr am ddull gweithredu mwy cymesur, integredig, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â data o ansawdd cadarn a chyn lleied â phosibl o rwystrau i fusnesau bach a chanolig.

Cwestiynodd llawer o'r ymatebion werth adrodd yn ôl gwerth y contract yn unig, gan ddadlau y gallai ychydig o gontractau mawr ystumio'r data a pheidio ag adlewyrchu'r

lefel wirioneddol o ymgysylltu gan fusnesau bach a chanolig. Roedd galwadau am fetrigau sydd hefyd yn ystyried nifer y contractau a lefel ymwneud y gadwyn gyflenwi.

Nododd yr ymatebwyr nad oedd y mesur arfaethedig yn cyfrif am rôl sylweddol busnesau bach a chanolig fel is-gontractwyr mewn prosiectau mawr. Roeddent o'r farn na fyddai canolbwyntio'n unig ar gontractau uniongyrchol â busnesau bach a chanolig yn rhoi’r pwys priodol ar nodau llesiant.

Roedd pryderon ynghylch cywirdeb dosbarthiadau busnesau bach a chanolig, yn enwedig wrth ddibynnu ar systemau awtomatig neu ddata hunangofnodedig. Galwodd yr ymatebwyr am ddiffiniadau cliriach a ffynonellau data mwy dibynadwy.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser. Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 3. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran busnesau bach a chanolig.

Mae gan fusnes bach a chanolig yr ystyr a roddir gan adran 123 o Ddeddf Caffael 2023 fel y'i nodir yn y Rheoliadau ac felly, mae'n ddiffiniad cyson. Amlygir hyn hefyd yn y canllawiau statudol.  Mae gwella hygyrchedd contractau i fusnesau bach a chanolig bob amser wedi bod yn flaenoriaeth polisi ac yn ffocws i ddeddfwriaeth caffael.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod er mwyn cyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno. Mae contractau i fusnesau bach a chanolig yn arwydd cyffredinol o fantais economaidd leol, ac felly bydd hyn yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael

(yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

O ystyried y gefnogaeth i'r amod hwn, y camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

### Amod 4: Contractwyr sy’n cael eu gyrru gan werth (wedi'u cynnwys yn rheoliad 5(2)(d) y Rheoliadau drafft)

C7a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 4 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C7b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 7a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 33 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 19 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 4 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 4 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 32 o sylwadau.

Nododd yr ymatebion i gwestiwn 7b, er bod cefnogaeth i'r egwyddor o hyrwyddo caffael sy'n cael ei yrru gan werth, fod llawer o'r farn bod y gofynion adrodd arfaethedig yn aneglur, yn feichus, ac yn aneffeithiol o bosibl. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddiffiniadau cliriach, metrigau mwy ystyrlon, a dull gweithredu cymesur, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr ddryswch ynglŷn â'r hyn y mae "contractwr sy’n cael ei yrru gan werth" yn ei olygu, ac roedd galwadau am ddiffiniadau a chanllawiau cliriach. Roedd ansicrwydd ynghylch a oedd hyn yn cyfeirio at fentrau cymdeithasol, cwmnïau nid-er-elw, neu grŵp ehangach.

Nododd nifer o'r ymatebion nad oedd y gofynion adrodd yn gymesur ar gyfer pob math o gontract neu gontractau o bob gwerth. Roedd rhai o'r farn nad oedd y ffocws ar gontractwyr sy'n cael eu gyrru gan werth bob amser yn berthnasol i'r contract.

Beirniadodd rhai ymatebwyr y defnydd o werth contractau fel yr unig fetrig, gan ddadlau nad oedd hynny'n rhoi adlewyrchiad cywir o effaith contractwyr sy'n cael eu gyrru gan werth. Roedd awgrymiadau y gallai nifer y contractau neu ganlyniadau ansoddol fod yn fwy ystyrlon.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser. Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 4. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran contractwyr sy'n cael eu gyrru gan werth.

Mae'r Rheoliadau o dan Ddeddf Caffael 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys gwybodaeth mewn nifer o hysbysiadau ar gontractwyr sy'n sefydliadau anllywodraethol sy'n cael eu gyrru gan werth ac sydd gan amlaf yn ail-fuddsoddi eu gwarged mewn amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol pellach. Felly, mae amod 4 yn gyson â deddfwriaeth caffael arall. Caiff rhagor o wybodaeth am y diffiniad o "gontractwr sy'n cael ei yrru gan werth" ei darparu hefyd er mwyn sicrhau dehongli ac adrodd cyson.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod er mwyn cyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

O ystyried y gefnogaeth i'r amod hwn, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, y camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

**Amod 5: Cynlluniau lleihau carbon**

C8a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod amod 5 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C8b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 8a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 29 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 24 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 3 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 4 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 31 o sylwadau.

Nododd yr ymatebion i gwestiwn 8b, er bod cefnogaeth gref i'r amcanion amgylcheddol sy'n sail i'r cynlluniau lleihau carbon, fod llawer o'r farn bod y gofynion arfaethedig yn anghymesur, yn feichus, ac yn wrthgynhyrchiol o bosibl i fusnesau bach a chanolig a chyflenwyr lleol. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am gysondeb â throthwyon polisïau cyfredol, canllawiau cliriach, a ffocws ar ganlyniadau ystyrlon yn hytrach na chydymffurfiaeth yn unig.

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod gofyn am gynlluniau lleihau carbon ar gyfer pob contract adroddadwy, yn enwedig y rhai sydd mor isel â £30,000, yn afrealistig ac yn anghymesur, ac y byddai ymestyn hyn i gontractau o werth is yn creu rhwystrau diangen, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig.

Roedd llawer yn poeni am y diffyg canllawiau clir ynghylch ystyr cynllun lleihau carbon cydymffurfiol, sut y dylid asesu'r cynlluniau hyn, a phwy fyddai'n gyfrifol am eu dilysu. Nododd yr ymatebwyr yr angen i safoni ac i gael cymorth ymarferol.

Nododd llawer o'r ymatebion y gallai cynlluniau lleihau carbon gorfodol ar gyfer pob contract atal busnesau bach a chanolig a chyflenwyr lleol rhag ymgeisio am gontractau cyhoeddus, gan danseilio bwriad y polisi, sef cefnogi'r grwpiau hyn a lleihau cystadleuaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser. Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 5. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran lleihau carbon.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod er mwyn cyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

Bydd rhagor o wybodaeth am yr amod hwn yn cael ei rhoi i gyflenwyr, gan gysylltu ag unrhyw hyfforddiant sydd ar gael ac a ddarperir gan Busnes Cymru i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Caiff Nodyn Polisi Caffael Cymru ar Gynlluniau Lleihau Carbon ei ddiweddaru ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym, er mwyn sicrhau'r eglurder mwyaf posibl o ran yr hyn sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth a'r polisïau.

O ystyried y gefnogaeth i'r amod hwn, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, rhai camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

**Amod 6: Gwybodaeth am allyriadau (wedi'i chynnwys yn rheoliad 5(2)(f) y Rheoliadau drafft)**

C9a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 6 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C9b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 9a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 27 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 24 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 3 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 4 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 32 o sylwadau.

Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 9b, er bod cefnogaeth gref i'r amcanion amgylcheddol sy'n sail i adrodd ynghylch allyriadau, fod llawer o'r farn bod y gofynion arfaethedig yn anghymesur, yn feichus, ac yn wrthgynhyrchiol o bosibl i fusnesau bach a chanolig a chyflenwyr lleol. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddull gweithredu mwy graddol, cymesur, ac integredig, ynghyd â chanllawiau a chymorth cadarn i sicrhau bod y gwaith adrodd yn cefnogi nodau cynaliadwyedd ac yn cyflawni canlyniadau ystyrlon mewn gwirionedd.

Nododd yr ymatebwyr nad oedd gan lawer o gyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, y gallu, yr adnoddau, na'r arbenigedd i fesur allyriadau ac adrodd arnynt yn gywir. Roedd amheuaeth ynghylch dichonoldeb casglu data ystyrlon ar allyriadau o'r gadwyn gyflenwi ar yr adeg hon.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai gofyn i gyflenwyr adrodd ar allyriadau ar gyfer pob contract uwchlaw £30,000 yn creu baich gweinyddol ac ariannol sylweddol, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig ac unig fasnachwyr. Roedd pryder y gallai hyn atal cyflenwyr llai rhag ymgeisio am gontractau cyhoeddus.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Yn seiliedig ar y sylwadau manwl a gafwyd, bydd yr amod hwn yn cael ei ddileu o'r Rheoliadau hyn. Er bod yr ymatebion wedi'u rhannu'n weddol gyfartal, mae pryderon o hyd am y llwyth gwaith posibl i lawer o gyflenwyr llai, yn enwedig i fodloni'r maen prawf hwn, yn ogystal â gorgyffwrdd posibl â'r wybodaeth a geir mewn Cynllun Lleihau Carbon. Y farn oedd y dylid canolbwyntio ar yr adeg hon ar y Cynllun Lleihau Carbon.

Bydd y Rheoliadau drafft sydd wedi'u cynnwys gyda'r ymgynghoriad yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r penderfyniad hwn.

**Amod 7: Datganiad polisi amgylcheddol (wedi'i gynnwys yn rheoliad 5(2)(g) y Rheoliadau drafft)**

C10a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 7 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C10b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 10a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 25 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 23 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 8 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 4 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 32 o sylwadau.

Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 10b, er bod cefnogaeth gref i gyfrifoldeb amgylcheddol ym maes caffael, fod llawer o'r farn bod y gofynion arfaethedig ar gyfer Datganiadau Polisi Amgylcheddol yn aneffeithiol o bosibl, yn feichus, ac nad oeddent yn ystyrlon bob amser. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddull gweithredu mwy cymesur, sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â chanllawiau cadarn a phroses o integreiddio â systemau cyfredol.

Cwestiynodd llawer o'r ymatebwyr a oedd meddu ar Ddatganiad Polisi Amgylcheddol yn ddangosydd ystyrlon ar gyfer perfformiad amgylcheddol. Nodwyd y gallai sefydliadau feddu ar bolisi ond peidio â'r roi ar waith, ac nad oedd bodolaeth polisi yn gwarantu canlyniadau cynaliadwy.

Roedd pryder ynghylch diffyg mecanweithiau i asesu, monitro neu orfodi ansawdd a gweithrediad Datganiadau Polisi Amgylcheddol. Heb safonau neu archwiliadau clir, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod perygl y byddai'r gofyniad yn "ymarfer ticio blychau".

Er bod cefnogaeth eang i'r egwyddor o hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod perygl y byddai'r dull gweithredu presennol yn aneffeithiol oni bai bod canllawiau cadarn, trothwyon cymesur, a phrosesau monitro ystyrlon.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser. Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 7. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran yr amgylchedd.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod, gan eu galluogi i gyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei

chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

Mae Holiadur Caffael Penodol Cymru yn cynnwys y cwestiwn hwn ar hyn o bryd, ac felly mae'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chasglu eisoes fel rhan o sawl proses gaffael.

O ystyried y gefnogaeth eang i'r amod hwn, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, rhai camsyniadau yr oedd yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

**Amod 8: Cyflog Byw (wedi'i gynnwys yn rheoliad 5(2)(h) y Rheoliadau drafft)**

C11a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod amod 8 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C11b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno'n gryf â Chwestiwn 11a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 33 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 15 o'r ymatebwyr yn anghytuno, nid oedd 5 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 7 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 30 o sylwadau.

Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 11b, er bod cefnogaeth gref i'r egwyddor o hyrwyddo'r Cyflog Byw a gwaith teg, fod llawer o'r farn bod y gofynion arfaethedig yn feichus o bosibl, yn amherthnasol weithiau, ac yn anodd eu monitro'n effeithiol. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddull gweithredu mwy cymesur, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â chanllawiau cadarn, proses o integreiddio â systemau cyfredol, a chyn lleied â phosibl o rwystrau i fusnesau bach a chanolig.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai gofyn i bob cyflenwr fod yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw, neu adrodd ar y statws hwn, yn creu baich gweinyddol ac ariannol anghymesur, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig ac unig fasnachwyr. Roedd pryder y gallai hyn atal cyflenwyr llai rhag ymgeisio am gontractau cyhoeddus.

Roedd llawer o'r ymatebion yn cwestiynu pa mor berthnasol yw'r achrediad Cyflog Byw i bob math o gontract a chyflenwr, gan nodi efallai nad oes gan rai cyflenwyr staff ar gyflog is neu efallai eu bod eisoes yn talu uwchlaw'r Cyflog Byw, a hynny heb achrediad ffurfiol.

Roedd pryder ynglŷn â sut y byddai'r achrediad Cyflog Byw yn cael ei wirio a'i fonitro ar hyd oes y contract, ac a oedd gan awdurdodau contractio yr adnoddau i wneud hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser. Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 8. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran y Cyflog Byw.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod, gan eu galluogi i gyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

O ystyried y gefnogaeth eang i'r amod hwn, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, y ffaith bod hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn un o bolisïau cyfredol Llywodraeth Cymru ac yn rhan o'r Dangosyddion Cenedlaethol, rhai camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

### Amod 9: Undeb Llafur sy’n cael ei gydnabod (wedi'i gynnwys yn rheoliad 5(2)(i) y Rheoliadau drafft)

C12a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 9 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C12b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 12a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 22 o blith y 60 o ymatebion yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd 20 o'r ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Nid oedd 10 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd wyth ohonynt wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 29 o sylwadau.

Roedd yr ymatebwyr yn credu'n gyffredinol fod ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth ynghylch cydnabod undeb llafur fel amod adrodd yn anghymesur ac yn peri risg o osod baich diangen ar gyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig ac unig fasnachwyr. Roedd consensws cryf y gallai gofynion fel hyn fod yn anodd eu gweithredu, efallai na fyddent yn berthnasol i bob contractwr neu gyflenwr, ac y gallent, yn anfwriadol, atal cyfranogiad mewn prosesau caffael cyhoeddus. Teimlwyd bod y mesur, o bosibl, yn wleidyddol, a bod iddo werth ymarferol cyfyngedig o ran asesu nodau llesiant.

Nododd llawer o'r ymatebwyr eu cred nad yw cydnabod undeb llafur yn berthnasol nac yn ymarferol i fusnesau bach, nad oes ganddynt undebau llafur cydnabyddedig neu gyd-gytundebau ffurfiol yn aml.

Roedd pryder y gallai'r gofyniad hwn eithrio neu gosbi cyflenwyr llai, yn groes i'r bwriad, sef cefnogi busnesau bach a chanolig i gymryd rhan.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser.

Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 9. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran cydnabod undeb llafur.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n

bodloni pob amod, gan eu galluogi i gyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

O ystyried ymrwymiad polisi cryf Llywodraeth Cymru i bartneriaeth gymdeithasol a chydgynrychiolaeth yn y gweithle drwy undebau llafur, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, rhai camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

**Amod 10: Cydfargeinio (wedi'i gynnwys yn rheoliad 5(2)(j) y Rheoliadau drafft)**

C13a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 10 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C13b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 13a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 22 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 20 o'r ymatebwyr yn anghytuno, nid oedd 10 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 8 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 30 o sylwadau.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth ynghylch cydfargeinio fel amod adrodd yn anghymesur ac yn peri risg o osod baich diangen ar gyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig ac unig fasnachwyr. Roedd barn gref y gallai gofynion fel hyn fod yn anodd eu gweithredu, efallai na fyddent yn berthnasol i bob contractwr neu gyflenwr, ac y gallent, yn anfwriadol, atal cyfranogiad mewn prosesau caffael cyhoeddus. Teimlwyd bod y mesur, o bosibl, yn wleidyddol, a bod iddo werth ymarferol cyfyngedig o ran asesu nodau llesiant.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Er ein bod yn cydnabod bod yr ymatebion i C12 a C13 yn gadarnhaol ar y cyfan, mynegwyd rhai pryderon. Ar ôl meddwl, rydym yn cytuno bod peth gorgyffwrdd a

dyblygu rhwng y ddau amod hyn oherwydd bod cysylltiad agos rhwng cydnabod undeb llafur a chydfargeinio, gan fod cydfargeinio'n peri bod angen cydnabod undeb llafur, a bod cydnabod undeb llafur yn darparu'r sylfaen ar gyfer cydfargeinio. Rydym wedi penderfynu dileu amod 10 er mwyn osgoi dyblygu.

Bydd y Rheoliadau drafft sydd wedi'u cynnwys gyda'r ymgynghoriad yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r penderfyniad hwn.

### Amod 11: Contractau dim oriau (wedi'u cynnwys yn rheoliad 5(2)(k) y Rheoliadau drafft)

C14a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 11 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C14b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 14a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig, ac roedd 26 o blith y 60 o ymatebion yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd 23 o'r ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Nid oedd 3 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd wyth ohonynt wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 31 o sylwadau.

Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 14b, er bod cefnogaeth gref i'r egwyddor o hyrwyddo gwaith teg a lleihau swyddi ansicr, fod llawer o'r farn bod y gofynion arfaethedig yn feichus o bosibl, yn amherthnasol weithiau, ac yn anodd eu monitro'n effeithiol. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddull gweithredu mwy cymesur, sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â chanllawiau cadarn, proses o integreiddio â systemau cyfredol, a chyn lleied â phosibl o rwystrau i fusnesau bach a chanolig.

Roedd pryder ynglŷn â sut y byddai cydymffurfiaeth â gofynion contractau dim oriau yn cael ei gwirio a'i monitro ar hyd oes y contract, ac a oedd gan awdurdodau contractio yr adnoddau i wneud hynny. Roedd rhai yn amau gwerth adrodd ar fathau o gontractau heb gamau dilynol ystyrlon.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser
Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 11. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i

Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran contractau dim oriau.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod, gan eu galluogi i gyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

O ystyried y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd annheg o gontractau dim oriau a'i bod yn annog cyflogwyr i gynnig sicrwydd oriau wedi eu gwarantu fel rhan o'u dull ehangach o ymdrin â gwaith teg, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, rhai camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

### Amod 12: Polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (wedi'i gynnwys yn rheoliad 5(2)(l) y Rheoliadau drafft)

C15a: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod amod 12 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C15b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno’n gryf â Chwestiwn 15a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

#### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 26 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 22 o'r ymatebwyr yn anghytuno, nid oedd 5 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 7 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 28 o sylwadau.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n gyffredinol fod ei gwneud yn ofynnol i bob cyflenwr gael polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel amod adrodd yn anghymesur, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig ac unig fasnachwyr. Roedd consensws cryf y gallai gofynion fel hyn greu baich gweinyddol diangen, rhwystro cyflenwyr llai rhag ymgeisio am gontractau'r sector cyhoeddus, ac na fyddent, o bosibl, yn cyfrannu mewn modd ystyrlon at y nodau llesiant. Nododd llawer nad yw meddu ar bolisi yn gwarantu camau gweithredu ystyrlon na chydymffurfiaeth, ac y dylid canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag ymarferion ticio blychau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser
Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 12. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod, gan eu galluogi i gyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

O ystyried y gefnogaeth eang i'r amod hwn, ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Waith Teg a'n cred mai cael polisi ar gyfer gweithle cynhwysol yw'r sylfaen er mwyn i gyflogwyr gymryd camau gweithredu ystyrlon, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, rhai camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

**Amod 13: Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi (wedi'i gynnwys yn rheoliad 5(2)(m) y Rheoliadau drafft)**

C16a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod amod 13 yn wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol awdurdodau contractio a chaffael cyhoeddus yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant?

C16b: Os gwnaethoch anghytuno neu anghytuno'n gryf â Chwestiwn 16a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod angen yr wybodaeth hon?

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 32 o blith y 60 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd 19 o'r ymatebwyr yn anghytuno, nid oedd 4 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid oedd 5 ohonynt wedi darparu ymateb.

Cafwyd 24 o sylwadau.

Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 16b, er bod cefnogaeth gref i'r egwyddor o hyrwyddo cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi, fod llawer o'r farn bod y gofynion arfaethedig yn feichus o bosibl, yn ddyblygol, ac yn anodd eu monitro'n effeithiol. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddull gweithredu mwy cymesur, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â chanllawiau cadarn, proses o integreiddio â systemau cyfredol, a chyn lleied â phosibl o rwystrau i fusnesau bach a chanolig.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r amod hwn yn ymwneud â chasglu gwybodaeth am nodweddion cyflenwyr sector cyhoeddus Cymru a chwilio am welliannau dros amser. Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu yn eu hadroddiadau blynyddol werth canrannol y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr sy'n bodloni amod 13. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio fynnu bod eu cyflenwyr yn bodloni pob amod. Cydnabyddir na fydd pob cyflenwr yn bodloni pob amod.

Os byddant yn dymuno, yn ogystal â'r ganran sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gall Awdurdodau Contractio ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn eu hadroddiadau blynyddol am y modd y mae eu hamcanion caffael a'u gwaith caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cyfrannu'n gyffredinol at gyflawni'r nodau llesiant o ran y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Bwriedir i'r cwestiynau cofrestru cyflenwyr ar GwerthwchiGymru gael eu diweddaru gyda chwestiynau dewisol ar bob un o'r amodau, a fydd yn gofyn am ymateb ie/na syml gan y cyflenwr, fel bod modd casglu'r data yn ganolog. Mae hyn yn golygu y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu echdynnu gwybodaeth am gyflenwyr sy'n bodloni pob amod, gan eu galluogi i gyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol.

Cydnabyddir bod cynnwys cyfredol y Cod yn gorgyffwrdd â rhai o'r amodau eraill a nodir yn y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r Cod sydd ar waith ers 2017 yn tynnu sylw at gyfrifoldeb byd-eang, ac nid yw'r amodau eraill yn ymdrin â hyn.

Caiff yr wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr Awdurdodau Contractio ei chyhoeddi a bydd Gweinidogion Cymru ac is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn ei hystyried, a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru y flwyddyn honno, ac yn helpu i fesur yr effaith y mae ein gwaith caffael (yn gyffredinol) yn ei chael ar nodau llesiant. Bydd yr adroddiad hwn yn ei dro yn cael ei gyhoeddi a gosodir copi gerbron y Senedd.

O ystyried ymrwymiad cryf Llywodraeth Cymru i gyfrifoldeb byd-eang fel nod llesiant allweddol, ac i annog cyflenwyr i feddwl am gyfrifoldeb byd-eang, y dogfennau gwybodaeth arfaethedig, rhai camsyniadau bod yr amod yn orfodol i gyflenwyr, a'r mesurau arfaethedig i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

### Y Gymraeg

C17a: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr is-ddeddfwriaeth ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi? A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?

#### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 43 o blith y 60 o ymatebion wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn.

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 17 yn dangos bod llawer o'r farn bod gan yr is-ddeddfwriaeth y potensial i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi nodau llesiant cenedlaethol, ar yr amod bod y gofynion yn gymesur, yn glir, ac wedi'u hategu gan ganllawiau ymarferol. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am hyblygrwydd, proses o integreiddio â safonau cyfredol, a ffocws ar ganlyniadau ystyrlon yn hytrach na biwrocratiaeth.

Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol drwy godi proffil y Gymraeg ym maes caffael cyhoeddus, annog defnydd o'r Gymraeg mewn contractau, a chefnogi'r nod o wireddu Cymraeg 2050.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Oherwydd ymrwymiad cryf Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg, y canllawiau statudol dwyieithog arfaethedig, a'r mesurau digidol dwyieithog y bwriedir eu rhoi ar waith i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

**Cwestiwn 18**

C17b: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid yr is-ddeddfwriaeth er mwyn gwneud y canlynol:

- gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 37 o blith y 60 o ymatebion wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn.

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 18 yn nodi y gallai'r is-ddeddfwriaeth gael mwy o effeithiau cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg pe byddai'r gofynion yn gymesur, yn glir, ac wedi'u hategu gan ganllawiau ac adnoddau ymarferol. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am hyblygrwydd, proses o integreiddio â safonau cyfredol, a ffocws ar ganlyniadau ystyrlon yn hytrach na biwrocratiaeth.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr y dylai'r gofynion o ran y Gymraeg fod yn gymesur â phwnc a gwerth y contract, yn ogystal â chapasiti'r cyflenwr. Roedd galwad am hyblygrwydd, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig a chontractau lle nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn uniongyrchol berthnasol.

Roedd galwad cryf am ganllawiau clir, hygyrch a chymorth ymarferol (megis templedi, hyfforddiant, a gwasanaethau cyfieithu) i helpu cyflenwyr ac awdurdodau i ddeall y gofynion o ran y Gymraeg. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y byddai cyfleu'r disgwyliadau'n glir yn helpu i atal achosion anfwriadol o beidio â chydymffurfio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae yna eisoes rwymedigaethau deddfwriaethol ac arferion gorau o ran y Gymraeg. Mae'r Ddeddf hefyd wedi'i chyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg a bydd y Rheoliadau a'r canllawiau Statudol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Oherwydd ymrwymiad cryf Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg, y canllawiau statudol dwyieithog arfaethedig, a'r mesurau digidol dwyieithog y bwriedir eu rhoi ar waith i symleiddio'r broses a lleddfu'r pryderon a fynegwyd, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

**Cwestiwn 19**

C17c: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 46 o blith y 60 o ymatebion wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn.

Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 19, er bod cefnogaeth gref i'r nodau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fod llawer o'r farn bod y gofynion adrodd arfaethedig yn feichus o bosibl, yn ddyblygol, ac nad oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau ystyrlon. Galwodd yr ymatebwyr yn gyson am ddull gweithredu mwy syml, cymesur, sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â chanllawiau cadarn, proses o integreiddio â systemau cyfredol, ac ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bu peth dryswch ynghylch y cwestiwn hwn, gan ei fod yn ymwneud â'r cwestiynau am y Gymraeg uchod. Fodd bynnag, mae'r ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ac adborth cyffredinol ar y Rheoliadau yn eu cyfanrwydd o dan yr adran hon.

Cyflwynwyd yr holl sylwadau hyn mewn perthynas â chwestiynau 1-16 uchod ac ymatebwyd iddynt yn fanwl.

## Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Gan mai dogfen grynhoi ydyw, ni fydd yr holl faterion a fynegwyd yn yr ymatebion wedi’u hadlewyrchu’n llawn, ond mae pob ymateb wedi'i ystyried yn ofalus. Y bwriad yw gwneud Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 fel y'u cynigir i raddau helaeth. Yn ogystal, lle y cyflwynwyd sylwadau y mae angen mynd i'r afael â nhw ond na fyddent yn gofyn am newidiadau i Reoliadau arfaethedig 2026, eir i'r afael â nhw yn y canllawiau a'r wybodaeth a gyhoeddir i gefnogi'r broses weithredu.